**Cofnodion**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Mehefin 17 2004 |
| **Amser:** | 9.30am hyd 12.38pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 2, Bae Caerdydd |

| | |
|---|---|
| **Aelodau** | **Yn bresennol** |
| Janet Davies *(Cadeirydd)*) | Gorllewin De Cymru |
| Leighton Andrews | Rhondda |
| Mick Bates | Maldwyn |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Christine Gwyther | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Denise Idris-Jones | Conwy |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| Val Lloyd | Dwyrain Abertawe |
| David Melding | Canol De Cymru |
| Carl Sargeant | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| **Tystion** | |
| Ann Lloyd | Cyfarwyddwr, Cyfarwyddiaeth y GIG, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| Dr Christine Daws | Cyfarwyddwr, Cyfarwyddiaeth Adnoddau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| Syr Jon Shortridge | Yr Ysgrifennydd Parhaol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| Laurie Pavelin | Pennaeth yr Is-adran Gyllid, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| David Richards | Prif Swyddog Cyllid, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| **Swyddogion** | |
| Syr John Bourn | Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| Ian Summers | Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| Mike Usher | Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| Ceri Thomas | Swyddfa Gydymffurfiaeth y Cynulliad |
| **Ysgrifenyddiaeth** | |
| Siwan Davies | Clerc y Pwyllgor |
| Liz Wilkinson | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, eilyddion a datgan buddiannau.**

1.1 Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Aelodau, tystion ac aelodau'r cyhoedd.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau oddi wrth Jocelyn Davies a Mark Isherwood a nodwyd bod Dai Lloyd a David Melding yn eilyddion iddynt.

**Eitem 2: Cyllid GIG Cymru 2004**

2.1 Gwrandawodd y Pwyllgor ar dystiolaeth oddi wrth Ann Lloyd, Cyfarwyddwr GIG Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a Dr Christine Daws, Cyfarwyddwr, Y Gyfarwyddiaeth Adnoddau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

2.2 Ceir trawsgrifiad gair-am-air o'r eitem hon yn Atodiad 1 o'r cofnodion.

**Gweithgaredd**

Cytunodd Ann Lloyd i roi nodyn i'r Pwyllgor ar batrwm yr hawliadau am esgeulustod clinigol ac anaf personol gan GIG Cymru rhwng 2001-02 a 2002-03.

Cytunodd Ann Lloyd i roi nodyn i'r Pwyllgor am fanylion yr achosion o dwyll ar draws GIG Cymru.

***Gohiriwyd y Pwyllgor rhwng 10.58am tan 11.15am***

**Eitem 3: Adroddiad Cyffredinol Archwilydd Cyffredinol Cymru 2004**

3.1 Gwrandawodd y Pwyllgor ar dystiolaeth gan Syr Jon Shortridge, Ysgrifennydd Parhaol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, David Richards, y Prif Swyddog Cyllid, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Laurie Pavelin, Pennaeth yr Is-adran Gyllid, Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

3.2 Ceir trawsgrifiad gair-am-air o'r eitem hon yn Atodiad 2 o'r cofnodion.

**Pwynt Gweithredu**

Cytunodd Syr Jon Shortridge i roi nodyn i'r Pwyllgor ar weithredu pwyllgorau archwilio Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, gan dynnu sylw at achosion lle'r oedd y pwyllgorau archwilio wedi codi pryderon am fethiant staff y CCNC i weithredu mewn ymateb i argymhellion archwiliad.

Cytunodd Syr Jon Shortridge i roi nodyn i'r Pwyllgor yn amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer rheolaeth ariannol yn ystod y flwyddyn sy'n dod.

Cytunodd y Cadeirydd y byddai ystyriaeth bellach o raglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 1994-1999 yn cael eu cynnwys ar raglen waith y Pwyllgor yn dilyn casgliadau adolygiad y Comisiwn Ewropeaidd o ansawdd yr archwiliadau terfynol.

**Eitem 4: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**

4.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mai.

**Penderfynodd y Pwyllgor eithrio'r cyhoedd o weddill y cyfarfod yn unol â Rheol Sefydlog 8.21(vi).**

**SESIWN BREIFAT**

**Eitem 5: Ystyried Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor i'r Cyfarfod Llawn**

5.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol 2003-04 i'r Cyfarfod Llawn a fyddai'n cael ei drafod ar 29 Mehefin.